**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/HIDCC/0895/24

Paul Davies MS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru

19 Ebrill 2024

Annwyl Paul,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2024 ('rheoliadau 2024').

Rwyf wedi cael llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yr Arglwydd Douglas-Miller, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn rhychwantu Cymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir o dan:

- baragraff 2 o Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau iechyd a lles anifeiliaid, cynhyrchion iechyd planhigion a diogelu planhigion, a
- paragraff 11A o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011.

Diben Rheoliadau 2024, mewn cydweithrediad ag ail OS, yw gweithredu ail garreg filltir Model Gweithredu Targed y Ffin o 28 Ebrill 2024. Bydd Rheoliadau 2024 yn diwygio dyddiad diwedd y Cyfnod Graddoli Trosiannol o 29 Ebrill 2024 i 31 Ionawr 2025 fel y gall ail gam Model Gweithredu Targed y Ffin ddechrau o 30 Ebrill 2024 ymlaen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd hefyd yn diwygio Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Lloegr) (Ymadael â’r UE) 2020. Rwyf wedi gwneud darpariaethau cyfatebol ar gyfer Cymru yn Rheoliadau Paratoadau Cig (Cymru) (Diwygio) 2024 a osodwyd gerbron y Senedd ar 12 Ebrill.

Nid ydym eto wedi cytuno â llywodraethau'r DU a'r Alban ar ddyddiad ar gyfer dechrau gwiriadau ffisegol ar allforion o Iwerddon, ond rydym eisoes wedi cyhoeddi na fydd ein cyfleusterau yn barod cyn gwanwyn 2025, ac felly bydd angen estyniad pellach o ddiwedd Ionawr 2025.

Nid yw'r Rheoliadau yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt o eiddo Llywodraeth y DU ar fioddiogelwch yn y dyfodol. Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ond yn yr achos hwn, ystyriwyd y byddai'n briodol i'r offeryn hwn fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud sy'n gydlynol ac yn gyson, ac yn golygu bod y rheoliadau ar gael mewn un offeryn statudol. Rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at y Gadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Minister for Climate Change and Rural Affairs**